# PERTHYN

Mawrth 2024 324



'Mae dynoliaeth yn methu. Sgen i ddim ateb, ond dan ni'n addoli'r pethau rong. Er, dwi ddim yn gwybod be ydy'r peth iawn i'w addoli chwaith.'

# Gair gan y Gweinidog



Yn ddiweddar fe brynais lyfr a hynny am resymau personol. Dwi'n hoff o siopau llyfrau, ac wrth bori mewn siop ddieithr dyma ddarganfod llyfr yn dwyn y teitl 'Cymru Gudd, Straeon a ffotograffau am leoliadau angof Cymru.' Chwip o lyfr yn llawn lluniau a hanesion difyr am hen adeiladau a chartrefi. Mae gen i ddiddordeb mewn hen adeiladau ac o gofio mai gwaith coed oedd fy mreuddwyd cyn y synnwyr yma o alwad i'r Weinidogaeth, roedd gweld lluniau o waith crefftwyr ddoe yn wefreiddiol. Syndod pellach oedd darganfod pennod ar hen adeilad cyfarwydd, Efail Galedrydd, Pen Llŷn, hen efail deuluol. Doedd dim i'w wneud ond cofio'r teitl a dychwelyd gartref. Bellach mae'r llyfr yn fy meddiant a chael mwynhad dyddiol o edrych ar luniau a darllen. Cefais flas arbennig ar tudalen cant a deg ymlaen –

> *'Mae Efail Galedrydd yn adeilad cofestredig Gradd 2, ac yn esiampl brin ac unigryw o efail gof draddodiadol sy'n llawn offer a thŵls".*

Ar dudalen cant a phump mae yna gyfeiriad at Twm Jones –

> *'Mae'r teulu Jones, Efail Galedrydd, wedi gadael ers blynyddoedd. Bu John, mab Twm Jones, yn byw drws nesaf i'r efail tan 2012 cyn iddo symud.'*

Wncl Tomi Galedrydd, perthynas i nain, Wncl Tomi ac Anti Megan, cynnes eu croeso, hael ei domatos o'r ardd, blaenor ac organydd yng Nghapel Graigwen, tafliad carreg o'r hen efail. Yn yr hen efail y dechreuodd achos y Methodistiaid Calfinaidd, cyn adeiladu Capel Graigwen, ac am flynyddoedd fe fu'n draddodiad i fedyddio ar yr einion. Bellach mae'r efail a'r hen gapel wedi cau a'r llu darluniau sydd yn y bennod yn dangos effaith rhŵd ac amser.

Mae'r flwyddyn yn prysur lithro o fis i fis ac ymhen ychydig fe fydd hi'n Ddydd Gŵyl Dewi Sant, cyfle i chi a fi ddathlu'r hyn ydym fel cenedl. Fe fyddai pobl Llanelli'n mynd o un cinio a chyngerdd i'r nesaf ond prin oedd y dathlu ym mlynyddoedd plentyndod. Dwi wedi meddwl llawer am hynny, ac yn dawel bach, yn gam neu'n gymwys, wedi dod i'r casgliad fod y cyfan, iaith, cymuned, diwylliant, yn rhan naturiol o'n bywydau a ninnau'n ddi-feddwl efallai yn cymryd y cyfan yn ganiataol. Nid felly bellach! Yn ymwybodol o'r hyn all fygwth ein hetifeddiaeth, yr alwad i ddathlu a chyhoeddi ond hefyd i warchod ac ar adegau, brwydro, dros gymuned. Y mae'n rhaid wrth gymuned wastad i sicrhau yr hyn sy'n werthfawr, adeiladol a chyfoethog.

Cymuned wahanol oedd y gymuned honno pryd yr adeiladwyd Efail Galedrydd. Cymuned leol, hunan gynhaliol a'r eglwys yn y canol, yn addoldy ac yn gartref. Fe ddaeth achos Graigwen i ben flynyddoedd yn ôl a'r weithred ar y pryd yn destun trafodaeth frwd. Ond bellach mae cau capel wedi dod yn rhywbeth cyffredin ac yn aml iawn, neb yn malio dim.

Tydw i ddim yn wleidydd nac yn gymdeithasegwr, ond fe fentra'i ddweud y gall apathi o'r fath fod yn niweidiol i fywyd cenedl a chymuned. Y gollwng gafael yma ar etifeddiaeth grefyddol, ysbrydol a gyda hynny gwerth cymuned a bywyd Cristnogol, yn addoliad ac yn wasanaeth. Hawdd fyddai ymhelaethu, onid digon datgan, a'r Pasg ar y gorwel, sydd yn ei hanfod yn sôn am ddechrau newydd a bywyd newydd, gwahoddiad heddiw i ni fel cenedl yw'r gwahoddiad i adnabod Duw o'r newydd a phrofi o lawnder y bywyd newydd ym mherson ei fab Iesu Grist.

Dros Gymru'n gwlad, O Dad, dyrchafwn gri,
y winllan wen a roed i'n gofal ni;
d'amddiffyn cryf a'i cadwo'n ffyddlon byth,
a boed i'r gwir a'r glân gael ynddi nyth;
er mwyn dy Fab a'i prynodd iddo'i hun,
O crea hi yn Gymru ar dy lun.

Dydd Gŵyl Dewi bendithiol i chi gyd!

Eifion.

# Newyddion

## Croesawu Aelodau Newydd

Yn y Gwasanaeth ar fore Sul, 18 Chwefror derbyniwyd Geoff a Bethan Davies, Rhydyfelin, yn aelodau yng Nghapel y Morfa. Hefyd, derbyniwyd Raymond Davies yn aelod o Gapel y Morfa fel rhan o gynulleidfa Capel Ebeneser, Penparcau, ar 4 Chwefror. Estynnnwyd croeso cynnes iddynt ar ran y ddwy gynulleidfa gan ein Gweinidog, Eifion Roberts. Llawenydd a braint oedd eu croesawu gan obeithio y byddant yn teimlo'n gartrefol yn ein plith.

## Cofion a dymuniadau gorau

Anfonwn ein cofion at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf: Celia Jones, Margaret Stephens, Terry Jones a Clifford Jones. Anfonwn ein cofion hefyd at ein haelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl ac at Ann Griffiths yn Nghartref Annedd, Llanybydder.

## Cydymdeimlad

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Iola Jones yng Nghartref Tregerddan. Cydymdeimlwn â'r teulu oll sydd yn cynnwys ei brawd, Clifford Jones a'i nai, Richard Jones, Waunfawr, Aberystwyth.

Cydymdeimlwn â theulu Mrs. Jean Porteous a fu farw yng Nghartef Cwmcynfelyn – Mam i Huw, Nia a David, Mam-gu i'w hwyrion a gor-wyrion a chwaer i Cynog Dafis. Cynhaliwyd yr angladd ar 19 Chwefror yn yr Amlosgfa.

Cydymdeimlwn â theuluoedd Kathleen Evans, Caerdydd a Beverley Smith, Abertawe a fu farw'n ddiweddar. Bu'r ddau yn aelodau yng Nghapel y Morfa cyn symud i fyw yn nes at eu teuluoedd.

## Llongyfarchiadau i ….

L. John Roberts ar gwblhau 40 mlynedd fel blaenor – yn gyntaf yn Salem ac yna yng Nghapel y Morfa. Cafodd ei longyfarch yn yr Henaduriaeth ddiwedd Ionawr. Diolch yn fawr iddo am ei gyfraniad ar hyd y blynyddoedd.

# NEWYDDION EBENEZER



**Croesawu aelod newydd**
Yn y Gwasanaeth Cymun ar 4 Chwefror o dan arweiniad ein Gweinidog, Eifion Roberts, braint oedd derbyn Raymond Davies yn aelod yng Nhapel y Morfa. Mae Raymond wedi bod yn mynychu'r gwasanaethau yn Ebeneser ers dros flwyddyn ac erbyn hyn yn ran o'r gynulleidfa a'r gymdeithas yno. Roedd nifer dda yn bresennol, yn cynnwys Helen, priod Raymond.

**Gwasanaethau**
Edrychwn ymlaen at y Gwasanaethau ar y Sul cyntaf a'r trydydd Sul ym mis Mawrth am 2.15. Ac ar brynhawn Sul, 31 Mawrth am 2.15. Cynhelir Gwasanaeth y Pasg yn Ebenezer.

**Cofion**
Ar drothwy'r Pasg, anfonwn ein cyfarchion a'n dymuniadau gorau at ein aelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser.

# PRYSURDEB Y CLWB SUL

Yn ystod mis Chwefror yr ydym wedi parhau i gyflwyno storïau a gweithgareddau ar y thema TAITH – taith i lannau'r Iorddonen i glywed hanes bedyddio Iesu gan Ioan Fedyddiwr ac yna ar drothwy'r Grawys, taith i'r anialwch a'r dewisiadau a



wynebodd Iesu. Cawsom gyfle i fwynhau gêmau ac amrywiaeth o weithgareddau hwyliog ar ddewisiadau doeth a ffôl a chofnodi'r dewisiadau doeth ar wal o friciau cadarn. Diolch i'r ieuenctid am y crempog blasus a baratowyd a'u gweini ganddynt.

Roedd hi'n braf croesawu Mali Enlli, am y tro cyntaf gyda'i rhieni Llifon a Nia Elis a'i chwaer Mirain





## LLONGYFARCHIADAU

Mae wedi bod yn dymor prysur i'r plant a'r ieuenctid gyda gweithgareddau Eisteddfodau Ysgol, Eisteddfodau Yr Urdd, Cyngerdd y Band Arian a gweithgareddau chwaraeon. Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r gweithgareddau hyn ac wedi rhannu eu doniau.



## Trefniadau'r Pasg:

Bore Sul, 17 Mawrth
Llanllanast Y Pasg yn y Festri (yn dilyn y gwasanaeth agoriadol yn y capel am 10 o'r gloch)

Sul y Pasg – Mawrth 31 am 10 o'r gloch
Gwasanaeth teulu a HELFA WYAU yn dilyn y gwasanaeth yng Nghoedwig Penglais






Golygyddion y mis hwn yw Sharon ac Arwel. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn EBRILL at Sharon ac Arwel erbyn dydd Sul, 24 Mawrth, os gwelwch yn dda.

# Deuawdau Lleuwen Steffan

Peth rhyfedd, am wn i, ydy disgwyl yr annisgwyl. Ond yn sicr dyna oedd fy mhrofiad i wrth edrych ymlaen at berfformiad Lleuwen Steffan yn y Morlan. A ches i mo fy siomi.



Mae yna hen gêm yn does, pwy fyddai'ch cwmni delfrydol chi dros ginio? Fy ateb parod i bob amser ydy Steve Eaves, Lleuwen a Manon Steffan ei chwaer.

Allwn i ddim dychmygu cwmni hyfrytach na difyrrach. Dwi rioed wedi siarad efo'r tri gyda'i gilydd ac fe hoffwn i weld y berthynas rhyngddyn nhw. Achos o ran eu bywyd celfyddydol, cyhoeddus dwi'n gweld themâu tebyg yn eu gwaith ond hefyd drwy eu personoliaethau. Un o'r pethau hynny ydy eu hysbrydolrwydd nhw.

Maen nhw wedi eu gwreiddio yn y traddodiad Cymraeg a Chymreig (ein lwc ni ydy mai yma dewisodd Steve fwrw'r gwraidd hynny), ond heb eu llyffetheirio ganddo fo chwaith (am yr un rheswm efallai).

Petae enwadaeth yr unfed ganrif ar hugain yn gymeriad mewn mytholeg Roegaidd – fel Sisyphus yn gwthio craig i fyny mynydd dro ar ôl tro – fe fyddai'n cymeriad ni wedi ei dynghedu i gerdded ymlaen gan edrych am yn ôl yn dragwyddol.

Mae'r berthynas yna rhwng y gwraidd a'r blagur, rhwng bod yn ymwybodol o'r gorffennol ond yn gallu cadw'n llygad ar y lôn ymlaen, yn dyngedfennol. A dyna graidd y perfformiad i mi.

Ei thema yn fras oedd, fel dywedodd hi ar y dechrau – mewn oes ôl Gristnogol sut mae edrych ar ein traddodiad i weld be ydyn ni wedi ennill, be ydyn ni wedi ei golli a sut allwn ni symud ymlaen?

Roedd ffurf a chynnwys ei pherfformiad yn clymu i gyfleu hyn. Ei phresenoldeb etheraidd hi ei hun yn canu deuawd gyda'r gorffennol, yn drosiadol ac yn llythrennol.

Cododd leisiau o'r gorffennol a defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i ganu deuawd gyda nhw. Weithiau doedd dim modd gwahaniaethu rhwng y ddau lais, rhwng y gorffennol a'r presennol, dro arall roedd yna wrthdaro.

Dechreuodd drwy ail-adrodd un llinell o emyn – 'o am dreiddio i'r adnabyddiaeth', ailadroddodd hi fel *mantra*, a dyna osod y trywydd. Treiddio i adnabyddiaeth o draddodiad ond treiddio i adnabyddiaeth ysbrydol ddyfnach yn ogystal.

Roedd ei brwdfrydedd dros ei thestun yn amlwg – fyddai'n well gen i ar brydiau fod wedi clywed mwy o'r cynnyrch na'r cefndir – nid nad oedd o'n eithriadol o ddiddorol. Ond yn bwysicach na hynny, oedd ei pharch amlwg hi at yr unigolion yr oedden ni'n clywed eu lleisiau nhw. Roedd hi'n eu trin nhw fel y byddech chi am iddi drin eich hen nain, gyda gofal, parch a chariad.

Geiriau ola'r perfformioad oedd 'Tra bydda'i byw, bydd dy gân o fewn clyw. Amen.'

Eto'r amwysedd o gyfeirio at y traddodiad, at yr unigolion yr oedd hi'n rhannu'r llwyfan gyda nhw, ac at Grist.
'Mae dynoliaeth yn methu', meddai Lleuwen wedyn, 'sgen i ddim ateb ond dan ni'n addoli'r pethau rong. Er, dwi ddim yn gwybod be ydy'r peth iawn i'w addoli chwaith.'

A dyna, efallai, fyddai man cychwyn fy sgwrs i dros banad efo hi a'i thad a'i chwaer.

RAJ

**_CYMANFA GANU UNEDIG_**
**_GOGLEDD CEREDIGION_**
**_2024_**

*CAPEL BETHEL, TALYBONT*

*DYDD SUL 28 EBRILL 2024*
*am 5.30 o`r gloch.*
*Arweinydd: Mrs Delyth Hopkins Evans,*
*Pontrhydygroes*

**_TREFN Y RIHYRSALS_**

| Noson | Dyddiad | Lleoliad | Amser |
|---|---|---|---|
| Nos Fercher | 27 Mawrth | Capel Seion Stryd y Popty | 7.00 |
| Nos Fercher | 10 Ebrill | Capel Bethel Aberystwyth | 7.00 |
| Nos Fercher | 17 Ebrill | Capel y Morfa Aberystwyth | 7.00 |
| Nos Fercher | 24 Ebrill | Capel Bethel Talybont | 7.00 |

## Dydd Gweddi'r Byd 2024

**Mudiad eciwmenaidd byd-eang a arweinir gan ferched eleni, paratowyd y gwasanaeth gan ferched Cristnogol Palesteina ar y thema – "Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad."**

Bydd y gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnal yn **Festri Capel y Morfa, ddydd Gwener, Mawrth yr 8fed, am hanner awr wedi dau. Croeso cynnes i wragedd a dynion**.

Darperir lluniaeth ysgafn ar ôl y gwasanaeth.



Llun Margaret Loxton

'Os ydych chi'n dewis peidio dod o hyd i lawenydd yn yr eira, fe fydd gennych lai o lawenydd yn eich bywyd a'r un faint o eira!'

## Cinio Bara a Chaws Cymorth Cristnogol

Bydd y Cinio Bara a Chaws nesa', er budd Cymorth Cristnogol, yn cael ei gynnal yn **festri Capel y Morfa, ar ddydd Llun, Mawrth 4ydd**, rhwng hanner dydd a hanner awr wedi un.

Croeso cynnes! Dewch i gefnogi!

# Gweddi

## Ein Cenedl a'i Phobl

Gweddïwn, Arglwydd, dros ein cenedl a'i phobl:
dros ein cymdogaethau, ein trefi a'n pentrefi;
dros ein cartrefi a'n bywyd teuluol;
dros ein hysgolion, ein colegau a'n pobl ifanc;
dros ein sefydliadau cyhoeddus, gwleidyddion a chynghorwyr;
dros ddiwydiannau a'u gweithwyr;
dros gefn gwlad a phawb sy'n trin y tir;
dros y cyfryngau, cynhyrchwyr a darlledwyr;
dros fudiadau diwylliannol, llenorion a beirdd;
dros ysbytai, meddygon a chleifion;
dros bawb sy'n gweinyddu'r gyfraith;
dros y tlawd, y digartref a'r di-waith;
dros ein heglwysi a'u cynulleidfaoedd,
a thros ledaeniad dy deyrnas yn ein plith:
'Rhag pob brad, nefol Dad,
Taena d'adain dros ein gwlad.'

Amen

Elfed ap Nefydd Roberts, *Amser i Dduw*, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts

# SULIAU MAWRTH

Blaenor y mis: R. Arwel Jones

3 Mawrth – Gwasanaeth y Parêd – Morlan/Eifion
10 Mawrth – Peter Thomas
17 Mawrth – Eifion Roberts
24 Mawrth – Roger Ellis Humphreys
31 Mawrth – Sul Pasg – Eifion Roberts

Blodau
3 Mawrth – Mair Griffiths ac Eleri Davies
10 Mawrth – Siân Eleri a Gwenan
17 Mawrth – Janet Sutton ac Anna Williams
24 Mawrth – John a Beti Roberts
31 Mawrth – Eifion ac Alwen Roberts

# Croeso Cynnes?

Bydd y Morlan ar agor bob dydd Mercher o 11 tan 2 o'r gloch ac yn cynnig lle cynnes i fwynhau sgwrs, paned a chawl. Mae gwahoddiad cynnes i chi ddod yno neu, i groesawu a helpu. Mae rhestr o wirfoddolwyr. Os ydych yn barod i wirfoddoli a wnewch gysylltu â Eifion neu Eleri os gwelwch yn dda.

Heb fod yng nghyfarfodydd yr wythnos o'r blaen?

Dewch! Beth am fentro?

Peidiwch â phoeni mae croeso cynnes i aelodau newydd bob amser.

Cymdeithas Gweddi a Choffi.

Bob bore Mawrth am 11 o'r gloch ar Zoom.

Paned a sgwrs. Be well?

Astudiaeth Ffydd a Phaned

Bob prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom.

Mentrwch unwaith. Fe fydd yn agoriad llygad!

Y Gymdeithas

11 Mawrth am 7:00 – Yr Athro Brifardd Emyr Lewis yn trafod ei gerddi.

25 Mawrth am 7:00 – Caryl Lewis yn trafod ei gwaith – a chyfle i edrych yn ôl dros raglen y flwyddyn.

Bargen!!




**Y** GRAWYS – GWNEUD ac NID PEIDIO â gwneud
CASGLIAD ARBENNIG Y GRAWYS at UNICEF
er mwyn helpu teuluoedd sydd yn dioddef yn GAZA
Oedolion: Bydd potel losin fawr yn y cyntedd neu wrth y drws yn derbyn arian mân.
Plant: Beth am lenwi tiwb Smarties neu pot iogwrt gyda 20c,10, neu 5c. ?
Diolch yn fawr